



30.11.12

TREFNIADAU'R NADOLIG

Annwyl Rieni

1. Sioe Nadolig

Yn anffodus mae'r arolwg ddiweddar wedi tarfu ar drefniadau'r sioe Nadolig, ac yn hytrach na rhuthro i baratoi rhywbeth brysiog, mae'r ysgol wedi penderfynu **gohirio'r sioe tan ar ôl y Nadolig** er mwyn cyflwyno rhywbeth gwerth chweil. Bwriedir llwyfannu pantomeim yn Ysgol Brynrefail ddiwedd Chwefror. Manylion i ddilyn.

2. Ffair Nadolig

Cynhelir y Ffair Nadolig flynyddol nos Iau, Rhagfyr 6ed am 6.00. Yn ôl yr arfer, bydd y plant i gyd yn canu detholiad o garolau ar ddechrau'r ffair, felly pawb i ymgynnull yn neuadd yr ysgol erbyn 6.00 os gwelwch yn dda. **Ni** fydd angen iddynt wisgo gwisg ysgol.

3. Cinio Nadolig (12.12.12)

Mae'r plant yn awyddus i gael gwisgo hetiau yn y cinio Nadolig, felly, yn hytrach na chael cystadleuaeth hetiau eleni, gofynnwn yn garedig i bob plentyn ddod ag unrhyw het / gap / benwisg Nadolig i'w wisgo yn ystod y cinio. Gall fod yn het y maent wedi ei gwneud neu wedi ei phrynu, neu hyd yn oed yn het o gracyr. Y bwriad yw creu awyrgylch Nadoligaidd heb fynd i drafferth mawr na chostau.

4. Canu Carolau yn Morrisons (Adran Iau yn unig)

Mae'r plant wrthi yn ymarfer carolau ar gyfer canu yn Morrisons, Caernarfon ar nos Fawrth, Rhagfyr 18 rhwng 5 a 6yh i godi arian i'r ysgol. Gofynnwn yn garedig am eich cefnogaeth. Penderfynwyd eleni i gynnal dau sesiwn o ½ awr, rhag i'r plant flino, felly cewch ddewis naill ai 5.00 – 5.30 neu 5.30 – 6.00. A fyddech gystal â nodi eich dewis ar y bonyn a'i ddychwelyd i'r ysgol erbyn dydd Gwener, Rhagfyr 7fed os gwelwch yn dda. Wrth gwrs, fe gaiff y plant aros am yr awr gyfan os ydynt yn dymuno! Gofynnir i rieni hebrwng eu plant yno ac yn ôl ac i fod yn gyfrifol amdanynt tra yno.

5. Recordio ar gyfer y sgrin fawr

Ar Ragfyr y 6ed bydd y plant yn recordio carol ar gyfer cael ei dangos ar y sgrin fawr yn nhre Caernarfon dros y Nadolig.

Canu Carolau yn Morrisons (Blynyddoedd 3,4,5,6 yn unig)

Bydd fy mhlentyn / Plant _____

Yn dod i ganu carolau yn Morrisons ar Ragfyr 18 5.00 – 5.30

5.30 – 6.00

Ni fydd fy mhlentyn yn dod i ganu carolau i Morrisons

Llofnod rhiant _____